

The Big Pathwatch: Cyflwr Ein Llwybrau Heddiw

Adroddiad cryno



Nid yw'r her y tu hwnt i ni

Mae angen gwella dwy ran o bump o'n llwybrau troed, llwybrau march a chilffyrdd, rhai ohonynt ar fyrder. Ond nid yw'r rhwydwaith wedi'i ddifrodi'n barhaol gan y toriadau eto. Nid yw'r rhwydwaith wedi'i dorri'n unman ac mae'r problemau'n lleol iawn.

Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd!

Drwy weithio gyda chynghorau, tîrfeddianwyr, elusennau eraill a chymunedau, gallwn sicrhau bod pob hawl tramwy yn cael ei chynnal yn dda erbyn 2020. I wneud hyn, rhaid i ni wneud mwy na cheisio cyrraedd y gofynion statudol lleiaf o fewn cyllideb sy'n lleihau o hyd. Drwy weithredu nawr, yn benderfynol a chreadigol, gallwn helpu i ddiogelu'r rhwydwaith at y dyfodol.

Mae yna gyfleoedd i gyrchu adnoddau ychwanegol.

Gall cysylltu cynnal y rhwydwaith o lwybrau â chreu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol lefel-mynediad, isel eu cost gynrychioli arbediad i'r gwasanaeth iechyd yn hytrach na chost i awdurdodau priffyrdd, a rhyddhau ffynonellau newydd o incwm i greu model hyfyw a chynaliadwy ar gyfer monitro a chynnal hawliau tramwy.

Gallwn ddatrys y rhan fwyaf o broblemau drwy weithio gyda'n gilydd.

Problemau y gellir eu datrys yw arwyddion coll ac isdyfiant trwchus. Yn ogystal â'r Cerddwyr, mae gan ddefnyddwyr llwybrau, tîrfeddianwyr a chymdeithas sifil ran bwysig i'w chwarae. Mae gan gynghorau gefnogwyr parod eu cymorth yn y cyswllt hwn, yn enwedig os gellir darganfod ffyrdd newydd o weithio gyda gwirfoddolwyr.

Materion gwarchodaeth.

Mae llwybrau'n well lle ceir gwarchodaeth weithredol. Gall tîrfeddianwyr, fel Stad y Goedwig Gyhoeddus, wneud mwy i wella hawliau tramwy ar eu tir; gall sefydliadau fel Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA) helpu i gryfhau'r achos dros warchodaeth weithredol ymhlith eu haelodau.

Drwy weithio gyda'n gilydd, a defnyddio gwybodaeth o'r Big Pathwatch ac ati i dargedu ein hymdrechion yn fwyaf effeithiol, gallwn sicrhau bod yr adnodd unigryw hwn rydym wedi'i adeiladu dros y canrifoedd yn parhau i gynnig gwerth a mwynhad ymhell i'r dyfodol.



Gallwn sicrhau bod **pob hawl tramwy** yn cael ei chynnal yn dda erbyn 2020.

Pam mae'n bwysig

Mae ein hawliau tramwy o werth amhrisiadwy i ni. Mae'r rhwydwaith o 140,000 o filltiroedd o lwybrau troed, llwybrau march a chilffyrdd sy'n gwau drwy ein trefi a chefn gwlad yn cysylltu pobl a lleoedd.

Mae bron pob un ohonom wedi defnyddio'r rhwydwaith hwn rywbryd neu'i gilydd: fel heicwyr, wrth fynd am dro ar y Sul neu i fynd o le i le. Er wedi'u gwarchod o dan y gyfraith cânt eu hesgeuluso'n aml, ond mae eu potensial yn enfawr.

Yn ogystal â bod yn anhygoel o boblogaidd, mae cerdded yn cynnig ateb i rai o'r heriau mwyaf a wynebwn fel gwlad.



- Mae cerdded yn gwella iechyd corfforol am bris cymharol isel. **Mae pob £1 sy'n cael ei gwario ar gynlluniau gwella iechyd drwy gerdded yn arbed £7 i'r gwasanaeth iechyd lleol.**



- **Mae cerdded o fudd mawr i iechyd meddwl.** Mae pobl sy'n gorfforol weithgar yn llai tebygol o ddiodesd o iselder clinigol, ac mae cerdded yn rheolaidd yn gwella hwyliau, yn lleihau pryder, yn hwyluso cwsg ac yn gwella hunan-ddelwedd.



- **Mae cerddwyr yn cefnogi economïau gwledig, yn enwedig drwy dwristiaeth.** Mae Llwybr Arfordir De-Orllewin Lloegr, er enghraifft, yn werth £436 miliwn y flwyddyn i'r economi rhanbarthol ac yn cynnal 9,771 o swyddi.




Mae degfed ran o'r rhwydwaith mewn cyflwr gwael iawn

Cyflwr ein llwybrau

Mae'r isadeiledd sydd ei angen eisoes yn ei le i raddau helaeth. Ond gan na chaiff llwybrau eu cynnal fel y dylent bob amser mae pobl yn cael eu rhwystro rhag eu mwynhau.

Nid ydynt byth yn flaenoriaeth uchel gan gynghorau lleol ac mae'r toriadau dwfn i wariant cyhoeddus yn peryglu'r ased pwysig hwn.

Cyflwr llwybrau yng Nghymru a Lloegr



- Cyflwr gwael - anodd/amhosibl eu defnyddio
- Cyflwr boddhaol ond angen eu gwella
- Cyflwr da ac arwyddion da


Yn 2015, aeth y Cerddwyr ati i ddarganfod cyflwr presennol y rhwydwaith o lwybrau yng Nghymru a Lloegr yn yr arolwg mwyaf a mwyaf cynhwysfawr hyd yma. Er i'r Big Pathwatch ddangos fod dros hanner ein llwybrau troed, llwybrau march a chilffyrdd mewn cyflwr da, roedd traean ohonynt mewn cyflwr boddhaol yn unig ac angen eu gwella.

Golygfeydd deniadol, arwyddion coll

Cafodd mwy na 109,236 o nodweddion eu nodi gan y Big Pathwatch, ac roedd 45 y cant ohonynt yn gadarnhaol. Y rhai mwyaf cyffredin oedd golygfeydd deniadol a phobl ac arwyddion croesawgar.

Rhwystrau a chael hyd i'r llwybr oedd y nodweddion negyddol mwyaf cyffredin. Roedd isdyfiant ac arwyddion coll yn arbennig yn peri anghyfleuster mawr: **arwyddion coll oedd yn cyfrif am un rhan o dair o'r holl nodweddion negyddol a nodwyd.**

Nodweddion negyddol yng Nghymru a Lloegr



- Pontydd, gatiâu a chamfeydd
- Rhwystrau
- Dod o hyd i'ch ffordd
- Arwyneb y llwybr
- Yn codi ofn
- Croesi ffordd

At ei gilydd, roedd y nodweddion negyddol yn gwneud cerdded yn anghyfleus, nid amhosibl: weiren bigog a phontydd neu gamfeydd coll oedd yn fwyaf tebygol o'i gwneud hi'n amhosibl i gerddwyr ddefnyddio llwybr, tra oedd llwybrau lleidiog neu lwybrau dan ddŵr yn anghyfleus fel rheol. Roedd isdyfiant yn fwy tebygol o rwystro cerddwyr na tharw.



Mae arwyddion coll yn cyfrif am un rhan o dair o'r holl nodweddion negyddol


Materion gwarchodaeth

Mae cyflwr y llwybrau'n amrywio o le i le ond mae'r darlun yn un cymhleth. Mae llawer o ffactorau lleol yn cyfrannu ac nid yw toriadau ariannol ar eu pennau eu hunain yn esbonio pam mae'r rhwydwaith wedi'i gynnal yn well mewn rhai mannau nag mewn eraill. Mae polisi ac arfer yn bwysig, yn enwedig gwarchodaeth weithredol dros y tir.

Er enghraifft, mae hawliau tramwy'n llawer mwy tebygol o gael eu gwarchod yn dda mewn ardaloedd sy'n perthyn i gyrff fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, pan ydynt wedi'u dynodi'n Barciau Cenedlaethol, Llwybrau Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Yn yr ardaloedd hyn hefyd y ceir mwy o nodweddion cadarnhaol a llai o nodweddion negyddol sy'n gwneud llwybrau'n amhosibl eu tramwyo.



Cyflwr llwybrau yn ôl perchenogaeth tir/dynodiad



● Cyflwr gwael - anodd/amhosibl eu defnyddio ● Cyflwr boddhaol ond angen eu gwella ● Cyflwr da ac arwyddion da


*Mae'r Goedwig Genedlaethol yn cynnwys Stad y Goedwig Gyhoeddus a Stad Coetir Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys neu wedi'i seilio ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth.

Mae'n amlwg bod llawer i'w wneud. Ond er bod yr her yn fawr, y newyddion da yw bod modd i ni achub y sefyllfa os gweithiwn gyda'n gilydd

Ffeithiau Allweddol am Gymru:

Nodwyd **7881** o nodweddion.

Arolygwyd **28%** o sgwariau.



Roedd **40% o'r nodweddion yn gadarnhaol**, ond roedd **20% yn gwneud y llwybrau'n amhosibl** eu defnyddio.





Cymru yw'r genedl **fwyaf croesawgar**.



Ychydig o dan hanner (**49%**) y llwybrau, llwybrau march a chilffyrdd yng **Nghymru oedd mewn cyflwr da**.



Nodweddion cadarnhaol yng Nghymru



Nodweddion negyddol yng Nghymru





Y camau nesaf

Rydym ni, yng Nghymdeithas y Cerddwyr, yn gwybod bod llwybrau Prydain yn rhwydwaith arbennig a gwerthfawr. Rydym am sicrhau bod llwybrau o safon uchel ar gael i bawb ym mhobman, a bod pawb yn gwneud eu rhan i amddiffyn ein llwybrau i'r cenedlaethau a ddaw – naill ai drwy roi gwybod am broblemau pan ddeuant o hyd iddynt neu drwy roi help llaw i gadw llwybrau mewn cyflwr da.

Rydym yn awyddus i weithio gyda chynghorau i sicrhau bod hawliau tramwy yn ased cydnabyddedig a gwerthfawr; yn rhan o'r isadeiledd cludiant a'r economi lleol, yn ffordd o gyflawni amcanion iechyd cyhoeddus, o gysylltu cymunedau â byd natur ac o hyrwyddo cydlynid cymdeithasol.

Mae gwirfoddolwyr y Cerddwyr eisoes yn clirio a chynnal llwybrau ar draws y wlad, ac rydym yn ystyried sut i adeiladu ar y gwaith hwn.

I ddarganfod sut gall y Cerddwyr helpu i ddatrys problemau a hyrwyddo llwybrau yn eich ardal chi, cysylltwch â **pathwatch@ramblers.zendesk.com**

Os hoffech gymryd rhan fwy gweithgar yn yr ymgyrch, neu ddarganfod sut gallwch weithredu i ddiogelu'ch llwybrau lleol, cysylltwch â'n hadran Polisi a Chymorth Eiriolaeth ar **020 7339 8554**.

I gael mwy o wybodaeth ac i lawrlwytho'r adroddiad llawn, *Big Pathwatch: State of Our Paths Today* ewch i www.ramblers.org.uk/bpwreport.

App Pathwatch



Gallwch roi gwybod i ni am broblemau gyda llwybrau drwy ein gwefan, neu drwy'r app Pathwatch y gallwch ei lawrlwytho am ddim. Byddwn yn gwneud yn siŵr wedyn bod yr awdurdod priffyrdd perthnasol yn cael gwybod am y problem. Os oes modd, byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau priffyrdd i helpu i ddatrys y problemau.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am yr app Pathwatch yn **www.ramblers.org.uk/pathwatch**